Gweithdai

Rhannwyd y cynadleddwyr yn dri grŵp. Rhannwyd pob grŵp ymhellach yn fyrddau o wyth i ddeuddeg o bobl. Gyda phob un wedi ei arwain gan gynrychiolwyr o'r Ymddiriedolaeth Ddinesig, yr IHBC a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gofynnwyd i bob bwrdd ganolbwyntio ar bedwar cwestiwn allweddol, a chyflwyno eu hatebion i HESS a gyflwynwyd yn ystod sesiwn y bore. Cafwyd crynodeb fesul ystafell yn anffurfiol mewn cyfarfod llawn.

Cwestiynau Ffocws

Mi fydd HESS yn gyfle allweddol i amgylchedd hanesyddol Cymru. Sut gallwn ni adeiladu perthnasau effeithiol ar draws y sector er mwyn sicrhau bod y cyfle hwn yn cael ymdriniaeth adeiladol?

1 **Beth fydd blaenoriaethau'r sector?**

2 **Sut gallwn ni adeiladu partneriaethau effeithiol?**

3 **Sut gallwn ni gydnabod a chryfhau cyfraniad y sector gwirfoddol amgylchedd hanesyddol?**

4 **Pa faterion neu fentrau eraill ddylwn ni ymdrin â nhw fel sector?**

Mae cofnod manwl o ganlyniadau'r gweithdy yn dilyn crynodeb y sesiwn derfynol.

Cyfarfod Llawn

Cafwyd cyflwyniad byr gan arweinydd pob grŵp, gan nodi rhai o'r meysydd a drafodwyd yn y gweithdai. Mae'n anochel bod gorgyffwrdd yn digwydd gyda manylion o adran flaenorol yr adroddiad.

Grŵp 1 (wedi ei arwain gan Ruth Williams o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol)

Y flaenoriaeth bennaf oedd ymestyn y sector, gyda chorff **Cadw** yn dod o hyd i ffordd o ymdrin â chynulleidfa broffesiynol a'r sector gwirfoddol, hyrwyddo arfer da ac "arwain y ffordd". Cydnabuwyd bod ei safle o fewn y llywodraeth yn gyfyng o ambell bersbectif, ac roedd yna faterion yn ymwneud ag adnoddau ac arweiniad gwleidyddol i'w hystyried, ond un datblygiad pwysig posib yw gweithio'n fwy effeithiol â grwpiau sylfaenol. Mae Cymru angen sector treftadaeth sy'n cyfateb i gorff megis y Ffederasiwn Amgueddfeydd.

Ynghlwm wrth y math hwn o fenter, roedd yna le i dîm arbenigol o 'hwyluswyr', sy'n gallu adnabod strwythurau sydd dan fygythiad, a gweithio fel cynghorwyr.

Dylai **awdurdodau lleol** orfod gwasanaethu fforymau gwasanaethau lleol. Roedd angen darparu hyfforddiant ym maes materion amgylchedd hanesyddol i uwch swyddogion, cynghorwyr a staff

rheoli adeiladu. Uwchlaw popeth, mae angen i swyddogion ac aelodau blaenllaw ystyried goblygiadau polisïau treftadaeth cenedlaethol a lleol. Dylid cynnal archwiliadau effeithlonrwydd o berfformiad awdurdodau lleol o safbwynt materion yn ymwneud â threftadaeth.

Mae angen targedau synhwyrol ar **HESS**, neu hyd yn oed y **sector cyfan**, a osodir gan ddatganiadau gweinidogion.

Gellir codi proffil treftadaeth trwy ddenu enwogion a sêr o'r byd chwaraeon - i ennyn dychymyg pobl ifanc yn enwedig. Ar lefel ymarferol, gallai astudiaethau achosion o arfer da gyflwyno negeseuon cadarnhaol ynghylch buddiannau economaidd cadwraeth. Byddai'n gymorth i gysylltu'r agenda hanesyddol a'r agenda gwyrdd - gallai newid yn yr hinsawdd ddod â'r ddau at ei gilydd.

Gallai **rhwydweithio** helpu'r sector trwy roi briff am bolisïau a materion ariannol.

Grŵp 2 (dan arweiniad Geraldine Delaney, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Cadwraethol)

Y blaenoriaethau oedd ymrwymo a chefnogi'r sector cyfan drwy gyfathrebu, addysgu a darparu gwybodaeth; treulio mwy o amser ar "brosiectau ysgafnach"; cydnabod effeithiau newid yn yr hinsawdd; cydnabod yr holl asedau sydd dan fygythiad, yn enwedig lle bo'r rhain yn "bethau anhysbys anhysbys"; ac ymestyn gwybodaeth y sector.

Roedd angen cyfathrebu i **adeiladu partneriaethau effeithiol**, yn ddelfrydol trwy "Gyswllt Treftadaeth" Cymreig, a allai gael ei hwyluso trwy ddefnydd creadigol o system gyfathrebu ddigidol. Rhaid cofleidio bob math o gynulleidfaoedd, a hynny drwy ddefnyddio iaith syml a chyfleoedd rhyngweithiol ("blog" Cadw, hyd yn oed). Roedd angen targedu adnoddau cyfyngedig er mwyn cynnal partneriaethau effeithiol. Mae'r dreftadaeth hefyd angen cael **pobl sy'n fodlon cefnogi'r achos** ar raddfa leol.

Roedd **adeiladu galluoedd y sector gwirfoddol** yn dibynnu ar gyfathrebu effeithiol trwy rwydwaith cryf a allai fod yn bwynt cyswllt cyntaf i grwpiau lleol a phobl sy'n cefnogi'r achos. Roedd swyddogion cadwraeth hefyd yn allweddol, o ystyried y gefnogaeth y gallent ei chynnig – ond caiff hyn ei gyfyngu gan amser ac adnoddau. Mae'r sector wirfoddol angen cefnogaeth ac arweiniad ar-lein.

Roedd **materion allweddol eraill** yn cynnwys yr angen i newid y cynllun TAWE er mwyn galluogi rheolaeth a fyddai'n fwy cynaliadwy ar yr amgylchedd hanesyddol; mwy o ffocws ar reoli golygfeydd ar y stryd; mentrau i ddatblygu "dehongliad i bawb"; a'r cyfle i bob carfan o fewn y sector i ddod ynghyd i feddwl yn strategol.

Grŵp 3 (wedi ei arwain gan Neil Sumner, IHBC, a Matthew Griffiths, Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru)

Roedd **blaenoriaethau** yn cynnwys ffocws ar **swyddogaeth yr awdurdodau lleol** wrth reoli a chydlynu gweithgarwch treftadaeth lleol. Dylent fod yn gallu derbyn swydd flaenllaw o fewn meysydd arbennig budd-daliadau, gan gynnwys cydlynu partneriaethau treftadaeth y sector gwirfoddol lleol – a dylai'r rhain fod yn orfodol. Roedd angen arian gan y llywodraeth er mwyn gwneud swydd o'r math hwn.

Mae angen i'r **sector yn ei gyfanrwydd** ddysgu o'i lwyddiannau a'i fethiannau. Cyfraniad pwysig i hyn fyddai datblygu fframwaith er mwyn tynnu rhwydweithiau a chyrff cyfredol ynghyd mewn fforwm sectorol.

Roedd gan **ddysgu gydol oes** swyddogaeth allweddol wrth geisio cyflwyno gweledigaeth ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol a chodi'i phroffil ymhlith pob grŵp oedran, nid ymhlith yr ifanc yn unig. Roedd y nod hwn yn fwy pwysig o bosib na cheisio newid cwricwlwm ysgolion. Mae angen ymrwymo'r gymdeithas gyfan.

Roedd angen i athroniaeth HESS fod yn fwy helaeth; roedd angen iddi gydnabod swyddogaeth y sector preifat, a hyrwyddo pwysigrwydd pensaernïaeth hanesyddol a modern.

Roedd y **pwyntiau cyfrannol** a bwysleisiwyd yn y gweithdy hwn yn cynnwys:

- Statws ac ariannu adeiladau crefyddol hanesyddol, o ystyried eu pwysigrwydd yn y tirwedd.
- Yr angen i gael gafael ar arian adnewyddu'n fwy rhwydd, gan gynnwys cael arian gan yr Undeb Ewropeaidd.
- Rhannu sgiliau a darparu deunyddiau arfer da fel rhan o fframwaith ymarferol sy'n cynnwys cefnogaeth, arweiniad a magu hyder
- Ymrwymo Comisiwn Dylunio Cymru ym materion addysg uwch, gan gydnabod y cysylltiadau sydd yn bodoli rhwng dylunio da a rheolaeth gynaliadwy o'r amgylchedd hanesyddol a gafodd ei adeiladu.
- Hyrwyddo cefnogwr annibynnol ar gyfer treftadaeth yng Nghymru.

Trafodaeth

- Dadl wedi ei ffocysu ar y cynllun arfaethedig i sefydlu **Rhwydwaith Treftadaeth Gymreig** - mater a oedd wedi ei godi'n flaenllaw ym mhob gweithdy. Roedd hi'n amlwg bod yna faterion i'w trafod o safbwynt swyddogaeth, ariannu, *modus operandi* (gan gynnwys manteisio ar gyfathrebu digidol), a chysylltiadau â Chyswllt Treftadaeth Lloegr, ond roedd yna gefnogaeth syfrdanol i'r cynllun arfaethedig, a welwyd pan ofynnodd y cadeirydd yn llym am weld dwylo yn yr awyr.
- Roedd **addysg** hefyd wedi ysgogi trafodaeth, gyda sylwadau yn cael eu gwneud am lwyddiant prosiectau megis Castell Henllys. Crybwyllwyd y syniad o "Gomisiwn Treftadaeth Cymru" - ar hyd llinellau'r Comisiwn Dylunio - gyda chydnabyddiaeth y byddai angen cefnogaeth wirfoddol gan aelodau'r panel. Roedd ffocws hefyd ar ddysgu ffurfiol ac anffurfiol, gyda safle treftadaeth yn y cwricwlwm a'r cyfleoedd a gyflwynwyd gan y fagloriaeth Gymraeg wedi eu pwysleisio. Cafwyd cefnogaeth gref i'r potensial a gynigir gan addysg oedolion a dysgu gydol oes trwy ddulliau creadigol o safbwynt darganfyddiadau a dehongliad.
- Daeth **swyddogaeth Cadw** i'r wyneb yn y gweithdai. Awgrymodd cenhadon y gellid cyflwyno gwybodaeth am waith Cadw mewn ffordd fwy effeithiol, er enghraifft drwy wefan well a mwy rhyngweithiol a thrwy adroddiad blynyddol.

- Gwnaethpwyd sylw fod **Cynllun Gofodol Cymru** yn amddifadu'r amgylchfyd hanesyddol, a bod posibilrwydd y gellid cael manteision drwy gael cyswllt mwy eglur rhwng dylunio a'r amgylchfyd hanesyddol.

- Roedd safle **swyddogion cadwraeth** a'u gallu i gynorthwyo'r sector gwirfoddol wedi esgor ar sylwadau. Pwysleisiodd un swyddog cadwraeth werthfawrogiad o ymrwymiad i'r sector gwirfoddol a'r rhwystrau a geir o gyflawni amryw ddisgrifiadau swyddi ac adnoddau Swyddogion Cadwraeth. Cytunwyd bod angen cryfhau'r cyswllt rhwng awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol.

- Gwnaethpwyd sylw (gan ei brif weithredwr) bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordirol Sir Benfro yn beth prin ymysg awdurdodau lleol o ran yr adnoddau y gallai eu neilltuo at yr amgylchfyd hanesyddol. Roedd ganddo ofidion ynghylch y Mesur Diogelu Treftadaeth, o safbwynt y cyfrifoldebau a osododd ar ysgwyddau'r awdurdodau lleol a'r goblygiadau o ran adnoddau yn sgil ei weithredu. Roedd yn pendroni sut gellid cynyddu gofid yr awdurdodau lleol am yr amgylchfyd a gwella eu gallu i gynnig gwasanaeth. A oedd yna swyddogaeth ar gyfer Cadw yn y broses o godi proffil yr amgylchfyd hanesyddol o fewn y llywodraeth leol? Wrth ymateb, pwysleisiodd prif weithredwr Cadw ymgais y corff i godi ymwybyddiaeth a gallu o fewn llywodraeth leol; rhoddodd hi bwyslais hefyd ar y ffaith fod blaenoriaethau lleol wedi eu nodi gan etholaethau, ac felly fod angen mynegi materion yr amgylchfyd hanesyddol yn gryfach o fewn cymunedau.

Crynodeb clo: Richard Keen

Fe adlewyrchodd Richard ar lwyddiant y gynhadledd wrth ganiatáu i nifer o leisiau gwahanol gael eu clywed o fewn y sector. Roedd y digwyddiad wedi pontio gofidion pobl broffesiynol a gwirfoddolwyr, ac wrth wneud hynny, croeswyd trothwy pwysig.

Roedd hi'n amlwg fod yna botensial am ddigwyddiadau eraill o'r math hwn, ac i adeiladu ar ei gyflawniad. Byddai'r lleoliad yn peri trafferth, gan fod yna lai o acenion gogleddol yno na rhai deheuol. Y cyweirnod y diwrnod hwnnw oedd cydgyfeirio nodau ac amcanion, wedi eu tanlinellu gan yr alwad am fwy o gyswllt, cynrychiolaeth a rhwydweithio ar draws y sector. Roedd angen ystyried ymrwymiad y sector preifat, ac roedd galw clir hefyd i ymchwilio i faterion yn ymwneud â chyfathrebu, a chyfeirio at faterion yn ymwneud ag adnoddau yn well.

Allbwn Gweithdai

Aeth y rhan fwyaf o'r grwpiau ati i ateb y cwestiynau ffocws ond cofnododd pob un eu hatebion mewn ffyrdd gwahanol. Felly, rydym wedi cofnodi cynlluniau arfaethedig mewn categorïau. Byddai rhai awgrymiadau'n addas ar gyfer mwy nag un categori. Mae amledd rhai awgrymiadau tebyg yn cynnig mynegai bras o'r graddau o faint o ofidion a syniadau oedd yn gyffredin. Cafwyd ychydig iawn o drafodaeth uniongyrchol am HESS, ond roedd cydnabyddiaeth gyffredinol ar gael yn y grwpiau ac yn y cyfarfod llawn fod hwn yn gyfle pwysig i godi proffil yr amgylchfyd hanesyddol, ac i ysgogi mwy o gydweithio effeithiol ar draws y sector.

O ystyried natur gymysg y gynhadledd, roedd hi'n wir fod gan rai o'r bobl oedd yn cymryd rhan fwy o wybodaeth nag eraill am y ddeddfwriaeth a'r cyrff sy'n berthnasol i reoli treftadaeth. Ceir rhai awgrymiadau isod sy'n adlewyrchu diffyg arbenigedd proffesiynol, ond maent yr un mor bwysig gan eu bod yn adlewyrchu canfyddiadau a gofidion ymhlith grwpiau gwirfoddolwyr. Yn gyffredinol, daeth y syniadau mwyaf anhrefnus ar waelod pob rhestr! Anogwyd y bobl oedd yn cymryd rhan i fod yn adeiladol ac fe allai hyn esbonio'r sylwadau gweddol gyfyng ynghylch adnoddau.

Ar sail y ddogfennaeth, roedd rhai materion yn amlwg yn sefyll allan yn fwy nag eraill. Ymddengys mai'r rhain yw:

- Y potensial am ryw fath o rwydwaith Cymru gyfan o faterion treftadaeth – er bod angen diffinio ei natur eang a'i swyddogaeth
- Cyfathrebu â'i gilydd ac â'r cyhoedd yn gyffredinol i godi ymwybyddiaeth o faterion treftadaeth
- Datblygu partneriaethau effeithiol – a gwella cysylltiadau rhwng y sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol
- Cryfhau'r sector gwirfoddol
- Ymdrin â materion sy'n ymwneud ag adnoddau
- Gofidion am y system reoli – nawr a than y ddeddfwriaeth arfaethedig
- Addysg – wedi ei nodi mwy nag unwaith fel blaenoriaeth, ond yn esgor ar ychydig iawn o drafodaeth

Blaenoriaethau

Cydweithio mewn partneriaethau

- Cysylltiadau effeithiol rhwng y sectorau
- Fframwaith i alluogi partneriaethau effeithiol a datblygu cysylltiadau rhwng strwythurau cyfredol.
- Rhannu sgiliau.
- Adeiladu hyfforddiant/gallu.
- Ymrwymo pobl ifanc drwy ymdrin â diddordebau ieuenctid
- Gwella cyfathrebu ar draws y sector trwy ganolbwyntiau a rhwydweithio.
- Datblygu cynhwysedd ac ymrwymo ystod ehangach o grwpiau yn y dreftadaeth.
- Creu cyswllt treftadaeth Gymreig a fyddai'n gallu trefnu cyfarfodydd rhanbarthol.
- Mae angen i bob lefel o'r sector gyd-dynnu. Dylai Cadw neu'r Ymddiriedolaeth Ddinesig gynnig arweiniad.
- Rhoi perchnogaeth ac ymrwymiad cymunedol i gymdeithas aml-ethnig.

Cyfathrebu'n well

- Cyfathrebu ynghylch pwysigrwydd treftadaeth
- Cyhoeddi esiamplau da o arfer da.
- Newid amgyffred pobl o Amgylchfyd Hanesyddol fel bod datblygwyr yn cydnabod buddiannau economaidd datblygu synhwyrol
- Targedu cyfathrebu i weddill y sector (gan Cadw? – "ni yw'r asiantaeth treftadaeth sy'n hoffi dweud 'ie'.")
- E-ymrwymiad: gwella gwefan (Cadw?)
- Cyfathrebu rhwng y sector a thu hwnt iddo: yn rhannu'r weledigaeth.
- Adnabod negeseuon allweddol
- Darganfod y negeseuon cywir er mwyn ymrwymo'r ifanc

Rheoli treftadaeth

- Dod ag agenda'r ymchwil archeolegol i'r golwg.
- Dysgu o'r gorffennol trwy astudiaethau achosion a fyddai'n ein galluogi ni i osgoi camgymeriadau megis yr un yn Ffatri Rwber Brynmawr, ac adnabod arfer da.
- Adnabod asedau sydd dan fygythiad
- Adeiladau sydd dan fygythiad
- Addysg perchnogion asedau
- Adnabod meysydd lle bo asedau'n anhysbys - y rhanbarth arforol a rhynglanw, yr ucheldiroedd, capeli ac eglwysi diangen, adeiladau milwrol ac amaethyddol yr ugeinfed ganrif
- Gosod targedau ac amserlenni SMART
- Newid hinsawdd
- Addasu a lliniaru newid hinsawdd
- Adnabod cyfraniad Cymru i gyd-destun Ewropeaidd a rhyngwladol – ein lle a'n cyfrifoldebau
- Sicrhau bod deddfwriaeth newydd yn effeithiol.
- Ceisio am nawdd gan y sector preifat

Addysg

- Addysg
- Addysg/cyfathrebu/partneriaethau'r cyfryngau
- Sicrhau bod treftadaeth ar y cwricwlwm

Partneriaethau

Rhwydweithiau a chysylltiadau

- Mae yna ddiffyg rhwydweithio a chydweithio yng Nghymru, yn rhannol oherwydd cyfyngiadau amser a phellter.
- Mae angen i ni gyfathrebu'n glir ynghylch potensial pob cyfranddaliwr. Mae angen cyfatebiaeth i Gyswllt Treftadaeth yng Nghymru.
- Mae angen cefnogaeth arnom a datblygu cysylltiadau a phartneriaethau.

- Mae angen fforwm i weithio o'i fewn ac er mwyn galluogi cysylltiadau â chydweithwyr. Byddai hwn yn gorff ble gallai cyrff anllywodraethol gydweithio, a gallai gynnwys cymdeithasau amwynderau a'r sector preifat.

- Byddai Cymru yn elwa o gael Cyswllt Treftadaeth.

- Mae angen rhwydwaith cyswllt.

- Mae angen i ni gysylltu grwpiau a rhwydweithiau lleol o fewn y sector gwirfoddol.

- Mae angen i ni ddatblygu rhwydwaith fwy ffurfiol ac archwilio mecanweithiau ar gyfer gweithio'n draws-broffesiynol, er enghraifft trwy gyfathrebu digidol.

- Mae angen llais cytgord er mwyn cyflwyno gweithgarwch

- Mae angen corff annibynnol i gynrychioli'r sector

- Mae angen i ni gysylltu grwpiau cyffredinol a rhai sydd â ddiddordebau mewn cyffredin. Gallai'r Ymddiriedolaeth Ddinesig neu Gyngor Archeolegol Cymru ddarparu fforwm i dynnu grwpiau diddordebau arbennig ynghyd (a'r rhai sydd â gofynion ehangach). Mae hyn yn digwydd, ond ar hap. Mae angen ehangu'r broses a'i gwneud yn un fwy cyffredin.

- Mae angen arian ar gydlynu cenedlaethol er mwyn cefnogi'r sector gwirfoddol.

- A yw'n rhy gynnar am gorff cenedlaethol?

- Dylid caniatáu i gyrff sector gwirfoddol llwyddiannus fentora eraill.

- Mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o ffurfio partneriaethau ag eraill sydd ddim yn y "clwb treftadaeth" – h.y. datblygwyr a pherchnogion tir ac adeiladau

- Mae angen i ni ddatblygu cynhwysiad.

- Mae angen amcanion eglur ar bartneriaethau.

- Mae angen adeiladu ar alluoedd, ac mae angen cyswllt rhwng awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol.

- Mae angen i ni fuddsoddi mewn datblygu a rhannu sgiliau.

Y sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol

- Erbyn hyn, mae gan awdurdodau lleol llai o fynediad i adnoddau na'r sector gwirfoddol

- Dylai awdurdodau lleol fod yn fwy gweithgar o ran y sector gwirfoddol (mae hyn yn cynnwys cymdeithasau dinesig, BPTs, y cymdeithasau cyfleusterau trefol a grwpiau hanes lleol)

- Mae angen i ni gryfhau cyfraniad pobl leol yn eu cymunedau, a'u hymrwymiad â'r amgylchfyd hanesyddol.

- Addysgu awdurdodau lleol fel y gall ail-ddatblygu a gofal am yr amgylchfyd hanesyddol fynd law yn llaw.
- Gall awdurdodau lleol arwain y ffordd wrth ddatblygu fforymau treftadaeth lleol
- Mae angen cefnogaeth ar bartneriaethau ar lefel aelodau neu'r cyngor.
- Mae angen i awdurdodau lleol ddatblygu ffyrdd o wrando ar y gymuned ("sgwrs barhaol")
- Mae angen i awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol gofleidio ei gilydd
- Mae cyflwyno effeithiol trwy awdurdodau lleol yn ddibynnol ar adnabod beirniadaeth dorfol: mae ardaloedd awdurdodau lleol yn aml yn rhy fach. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu darpariaeth ranbarthol, h.y. yr ymddiriedolaethau archeolegol. Mae yna botensial ymhellach i ddatblygu sgiliau o fewn yr ATs, er enghraifft wrth sgwrsio.
- Hyrwyddo grwpiau treftadaeth lleol sy'n baralel ag Awdurdodau Lleol (ar hyn o bryd, mae agwedd cynghorau at grwpiau lleol yn gymysg iawn)
- Hyrwyddo cyswllt rhwng staff sgwrsio'r Awdurdodau Lleol a'r sector gwirfoddol yn lleol
- Swydd benodedig yn yr Awdurdod Lleol er mwyn cynorthwyo prosiectau'r sector a grwpiau gwirfoddol (wedi eu hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru - £5K i bob awdurdod)
- Gallai Cadw gynnal archwiliadau effeithlonrwydd o reolwyr treftadaeth awdurdodau lleol

Manteision partneriaethau.

- Gall grwpiau amgylchedd hanesyddol (HEG) chwarae rhan yn y broses o adeiladu partneriaethau
- Mae angen i gyrff feddwl yn nhermau'r gwerth ychwanegol y gallant ei gynnig.
- Gall partneriaethau hyrwyddo manteision ehangach ail-ddatblygu.
- Mae partneriaethau'n galluogi ac yn delio gyda chynlluniau ehangach; gallant geisio am arian cydgyfeiriant a Chronfa Dreftadaeth y Loteri.
- Mae angen i ni roi grym i grwpiau gwirfoddol lleol a'u cefnogi fel y gallant helpu'r swyddog cadwraeth.
- Mae angen i ni dynnu grwpiau dinesig, penseiri a chynllunwyr, BPTs a swyddogion cadwraeth ynghyd.
- Mae angen i ni ddatblygu cyswllt â'r sector preifat, sydd heb gynrychiolaeth, er enghraifft Sefydliad Prydeinig y Galon (BHF)
- Mae angen mwy o rwydweithiau a phartneriaethau lleol arnom – mae pobl yn aml yn fwy cyfforddus mewn grwpiau llai o faint

Amrywiol

- Mae angen i Cadw fod y tu allan i'r llywodraeth
- Mae penwythnosau Treftadaeth Agored yn cofleidio partneriaethau awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol.
- Cydnabod swyddogaeth archaeoleg breifat yng Nghymru.
- Cydnabod swyddogaeth yr IFA.

Cryfhau'r sector gwirfoddol

- Mae angen cefnogaeth ac arweiniad ar y sector gwirfoddol, yn ogystal ag adnoddau.
- Mae'n bosib bod gwirfoddolwyr yn moesymgrymu i bobl broffesiynol, ond mae gwirfoddolwyr yn aml yn arbenigwyr sydd wedi ymddeol.
- Cydnabod arbenigedd y sector gwirfoddol – maen nhw'n adnabod eu cymuned
- Mae angen i gyrff sector gwirfoddol fod yn ofalus wrth geisio siarad ar ran "y gymuned" yn hytrach na throstynt eu hunain
- Datblygu ffyrdd o wrando ar y gymuned
- Gallai Awdurdodau Lleol sicrhau swyddi cymorth grantiau o fewn grwpiau gwirfoddol er mwyn sicrhau gweinyddiaeth briodol
- Datblygu canllawiau pecynnau teclynnau ac arfer da i'r sector gwirfoddol er mwyn gwella'r arfer o ymrwymo a chynnwys y gymuned.
- Nid yw swyddfeydd cofnodion yn cael eu defnyddio digon a gallant fod yn sail i adeiladu partneriaethau o amgylch hanes y teulu.

Cyfathrebu ac addysg

- Mae angen i ni wella dulliau cyfathrebu o fewn y sector
- Nid oes digon o arbenigedd ym myd cadwraeth. Lle bo'n bodoli, nid yw'n derbyn sylw bob amser.
- Mae angen trosglwyddo ein neges am yr amgylchfyd hanesyddol ledled y sefydliad Cymreig a'r cyhoedd.
- Gwella dulliau cyfathrebu rhwng cyfranddalwyr – mae hyn yn ddi-drefn ar hyn o bryd
- Darganfod ffyrdd o wella cyfathrebu sydd ei angen arnom er mwyn cwrdd yn fwy rheolaidd i drafod materion. Wrth wneud hynny, mae angen talu sylw o amrywiaeth diddordebau'r sector.

- Mae angen i ni gyfathrebu'n eglur o safbwynt potensial bob cyfranddaliwr unigol. Mae angen rhywbeth sy'n cyfateb i Gyswllt Treftadaeth yng Nghymru (sy'n dyblygu'r partneriaethau)
- Ennyn cefnogaeth gyhoeddus i'r dreftadaeth trwy lu o wybodaeth: mae angen adnoddau er mwyn gwneud hyn.
- Ymgyrchu trwy ddathlu rhagoriaeth a lleihau arfer drwg
- Mae Cadw yn rhy adnabyddus i Lywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru iddo gael ei ystyried yn hyrwyddwr arfer da annibynnol, ac nid yw'n gallu siarad yr un mor agored â Threftadaeth Lloegr
- Mae angen i Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (RCAHM) hysbysebu eu gwybodaeth a'u hadnoddau a'u rhoi nhw ar y we.
- Mae safle Cadw o fewn Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud iddo ymddangos yn anghysbell.
- Mae angen i'r llywodraeth ariannu deunydd hyrwyddo ysgafn ynghyd â chefnogaeth i ddeunydd caled
- Mae angen canllawiau arnom o safbwynt yr amgylchfyd hanesyddol i'r datblygwyr.
- Mae angen canllawiau tebyg i brynwyr adeiladau sydd wedi eu cofrestru.
- Gellir creu cyswllt rhwng arbenigeddau ar raddfa leol, gan gynnig cyfleoedd aml-feysydd i'r gweithwyr, a hwyluso cydweithio rhwng pobl broffesiynol a gwirfoddolwyr.
- Mae addysg ar goll o HESS: mae angen strategaeth ar gyfer addysg dreftadaeth o'r cyfnod cynradd i'r ôl-uwchradd
- Addysg, addysg, addysg
- Dehongliad i bawb.

Adnoddau

- Mae adnoddau'n flaenoriaeth.
- Mae angen adnoddau digonol arnom er mwyn gweithredu'r ddeddfwriaeth.
- Rhoi adnoddau i awdurdodau lleol fel y gallant fod yn weithgar a chofleidio materion treftadaeth a chyrff yn eu hardaloedd mewn modd cadarnhaol.
- Does dim mynediad hawdd gan y sector gwirfoddol i arian.
- Mae ymrwymiad personol yn cynnig adnodd yn rhad ac am ddim.
- Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar gael, ond mae angen adeiladu pwrpasol er mwyn cael mynediad iddi.

- Mae angen arian cynaliadwy yn hytrach nag arian sy'n benodol ar gyfer prosiectau.
- Mae Cadw yn brin o adnoddau.
- Darparu adnoddau a chefnogi'r swyddogion cadwraeth

Cynaliadwyedd

- Dylai cynaliadwyedd fod yn ddeniadol yn fasnachol.
- A oes yna astudiaethau sy'n dangos sut mae cadw adeiladau hanesyddol yn gwneud synnwyr yn economaidd?
- Mae angen diwygio'r cynllun TAW er mwyn ffafrio camau cynaliadwy i'r amgylchfyd hanesyddol.
- Newid y cynllun TAW – mae'n ddrwg i gynaliadwyedd.
- Mae'r sector amgylchfyd hanesyddol yn cael ei ystyried fel un sy'n wrth-ddatblygiad: dylid cywiro'r cysyniad hwn.
- Gallai cynaliadwyedd fod yn ffordd o apelio at bobl ifanc

Deddfwriaeth/camau cyfreithiol

- Dylid erlyn unrhyw un sy'n niweidio'r dreftadaeth.
- Mae angen i'r ddeddfwriaeth newydd fod yn effeithiol, ond a fydd iddo rym?
- Nid yw HESS yn portreadu realiti rheolaeth amgylchfyd hanesyddol ar y lefel isaf un.
- Mae angen cryfhau neu adolygu ardaloedd cadwraethol
- Cymryd camau brys i ddiogelu'r dreftadaeth sydd dan fygythiad
- Mabwysiadu camau er gwell neu er gwaeth
- Bydd Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn herio'r achosion gwaethaf o adeiladau dan fygythiad (BAR)
- Cyhoeddi cofrestr Adeiladau dan Fygythiad dros Gymru gyfan
- Datblygu grŵp bach o arbenigwyr er mwyn ymdrin â'r adeiladau gwaethaf dan fygythiad o ran perchnogion dideimlad, cynghori awdurdodau lleol a datblygu prosiectau patrymol
- Enwi a chywilyddio
- Annog swyddogion cadwraeth yr awdurdodau lleol

- Hwyluso gwerthiannau gan werthwyr trwy'r gofrestr adeiladau dan fygythiad.
- Rhoi mwy o flaenoriaeth i'r dreftadaeth mewn strategaethau cymunedol
- Rhoi Gradd III i adeiladau o bwys lleol
- Mae angen cynllun diogelwch statudol digonol ar adeiladau lleol sydd wedi eu cofrestru
- Mae angen camau cliriach o ran cadwraeth pensaernïaeth fodern sy'n cael eu cefnogi gan ddogfen strategol
- Mae angen hyfforddiant i gynllunio pwyllgorau
- Mae angen mwy o fewnbwn o safbwynt cyngor pensaernïol a phroffesiynau dylunio eraill ar bwyllgorau cynllunio
- Er mwyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd, mae angen mewnbwn gan y sector gwirfoddol, ynghyd â chyngor gan gyrff arbenigol megis Comisiwn Pensaernïaeth a'r Amgylchfyd Adeiladu (*sic)*. Dylai fod yna broses ymgynghorol gadarn ar gyfer pob adeilad hanesyddol a phob adeiladau a allai ddod yn hanesyddol.
- Mae angen arian a chynllun diogelwch cliriach ar adeiladau crefyddol
- Dylai prif weithredwyr ac arweinwyr gefnogi materion treftadaeth